

POSTERI ETHOLIADOL A DEUNYDDIAU ERAILL A RODDWYD AR ASEDAU (PRIFFYRDD) Y CYNGOR

Cyflwyniad

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy bwerau i weithredu yn erbyn unigolion sy'n gyfrifol am yr uchod dan y deddfwriaethau canlynol:-

- **Deddf Priffyrdd 1980 (adran 132)** – Bydd unrhyw un sy'n ei gael yn euog o drosedd yn gorfod talu dirwy o hyd at £1,000 ac, os bydd ail drosedd, hyd at £2,500.
- **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (adran 224)** - Bydd unrhyw unigolyn sy'n torri'r ddeddfwriaeth yn gorfod talu dirwy, ar ôl ei gael yn euog, sydd (ar hyn o bryd) yn ddim mwy na £2,500.
- **Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003** - Mae'r Ddeddf hon yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol roi rhybudd tynnu poster i berchennog y man dan sylw, a rhybudd cosb benodol os gellir canfod pwy yw'r troseddwr.
- **Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005** – Mae'r Ddeddf hon yn nodi'r ystod dirwyon ar gyfer rhybudd cosb benodol o £75 sy'n daladwy o fewn 14 diwrnod, y gellir ei leihau i £50 os yw'n cael ei dalu o fewn 7 diwrnod ac mae'n drosedd i roi enw a chyfeiriad ffug i swyddog sydd wedi ei awdurdodi i roi rhybudd o'r fath. Mae hefyd yn newid yr amddiffyniad sydd ar gael i gwmnïau sy'n elwa o'r poster.

Mewn Etholiadau

Yn y cyfnod sy'n arwain at, ac yn ystod Etholiadau Seneddol y Deyrnas Unedig (Etholiadau Cyffredinol) 2019, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn gofyn am eich cydweithrediad a'ch cymorth i gadw at y polisi o beidio gosod poster a deunydd etholiadol ar Asedau'r Cyngor e.e. ar arwyddion trafndiaeth, goleuadau stryd, rheiliau ar gylchfannau a chroesfannau i gerddwyr ayb.

Gall gosod poster a deunyddiau etholiadol ar asedau'r Cyngor arwain at gostau uchel ar gyfer glanhau ac adnewyddu asedau o'r fath, ac mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd yn gweithredu yn erbyn yr unigolion sy'n gyfrifol, os gellir canfod pwy ydynt.

Bydd Gwasanaethau y Cyngor yn wylidwrus, ac os bydd arferion o'r fath o fewn Terfynau'r Priffyrdd ac ar Asedau'r Priffyrdd, byddwn yn delio â hyn yn unol â Pholisi'r Cyngor h.y. rhoi gwybod i'r blaid wleidyddol o fewn 24 awr trwy asiant etholiadol, fod rhaid iddynt dynnu'r deunydd. Hefyd, os bydd poster a deunyddiau o'r fath yn cael eu hystyried yn niwsans a/neu yn beryglus, byddwn yn gweithredu dan Adran 333 Deddf Priffyrdd 1980 h.y. yn eu tynnu yn syth heb roi rhybudd.

Rydym yn gobeithio y bydd eich cymhorthwyr yn ystyried y peryglon a'r problemau a achosir trwy osod poster etholiadol fel y nodwyd, a gobeithiwn na fydd angen gweithredu ymhellach yn ystod cyfnod yr etholiad hwn.